OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 2558 (Cy.229)

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2004

Wedi'u gwneud - -		*28 Medi 2004*
Yn dod i rym - -		*30 Medi 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1)(e) ac (f), 17(1), 26(1) a (3) a 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddo(**2**), ar ôl rhoi sylw yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac ar ôl ymgynghori yn unol ag Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor(**3**) sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith fwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn pennu gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd, ac yn unol ag adran 48(4) a (4B) o'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Labelu Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2004; maent yn gymwys i Gymru yn unig a deuant i rym ar 30 Medi 2004.

Diwygio Rheoliadau Labelu Bwyd 1996

2. Diwygir Rheoliadau Labelu Bwyd 1996(**4**)) (i'r graddau y maent yn gymwys i Gymru) yn unol â rheoliadau 3 a 4.

3. Yn rheoliad 2(1) (dehongli), yn y diffiniad o "Directive 90/496", mewnosoder ar y diwedd y geiriau ", as amended by Commission Directive 2003/120/EC(**5**)".

4. Yn Rhan I o Atodlen 7 (cyflwyno labeli maethol a ragnodwyd), ym mharagraff 5 mewnosoder ar ddiwedd yr is-baragraff canlynol —

"(g) 1 gram of salatrims shall be deemed to contribute 25kJ (6 kcal)".

(**1**) 1990 p.16.
(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau a oedd gynt yn arferadwy gan "the Secretary of State" i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28).
(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1.
(**4**) O.S. 1996/1499; O.S. 1998/1398 yw'r offeryn diwygio perthnasol.
(**5**) OJ Rhif L333, 20.12.2003, t.51.